Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 295

Amseru: Mater dybryd

Teitl: Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer Ased Cymunedol

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ystadau

Crynodeb Gweithredol:
Mynegodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) ddymuniad i gadw nifer fach o eiddo nad oedd eu hangen yn weithredol mwyach i'w datblygu'n asedau cymunedol. Yn gyfreithiol, caniateir hyn, ar yr amod bod y defnydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion plismona a throseddu fel y'u nodir ym Mhrotocol Plismona 2011 a Chynllun Heddlu a Throseddu'r CHTh.

Er mwyn asesu dichonoldeb datblygiadau o'r fath yn ardal Heddlu Dyfed-Powys, gofynnodd y CHTh am gynnal ymarfer cwmpasu peilot ar gyfer addasu gorsaf heddlu Llanelli, sy'n cael ei gwagio wrth i gyfleuster newydd Dafen agor y gwanwyn hwn, at ddibenion gwahanol.

Yn sgil asesiad annibynnol gan ymgynghorwyr tir ac eiddo BP2 o ddefnydd posibl o'r eiddo yn y dyfodol, yr argymhelliad oedd gwerthu'r safle, lle nodwyd "mae angen atgyweirio'r adeiladau ar y safle yn sylweddol ac mae'r mwyafrif wedi cyrraedd diwedd eu hoes economaidd".

Nid yw'n cael ei ystyried felly yn ddichonadwy i barhau i archwilio'r awydd lleol i gadw'r safle fel ased cymunedol.

Argymhelliad:
Rhoi'r gorau i'r cynnig i gynnal astudiaeth ddichonoldeb o'r awydd lleol i ddatblygu cyfleuster cymunedol ar safle presennol gorsaf heddlu Llanelli.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed–Powys
Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw fuddiant personol neu ragfarnus yn y mater hwn ac fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus. Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 18/04/23**